
Ein partneriaid

WALES

# Llwybr golygfan Garn Fawr

Dringwch y brigiad folcanig creigiog hwn am olygfeydd trawiadol o arfordir Gogledd Sir Benfro. Cewch gyfle hefyd i ymweld â chaer o Oes yr Haearn, a ddaeth yn wylfan 3,000 o flynyddoedd yn ddiweddarach yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Pwll Deri, ger Wdig, Sir Benfro.

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Dringfa serth fer gyda nifer o gamfeydd. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn ar dennyn. Mae gwartheg a merlod yn pori ar hyd y llwybr hwn, felly cadwch eich cŵn ar dennyn, os gwelwch yn dda.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1 (km: 1.6)

Hyd: 30 munud

## Tirwedd

Dringfa serth fer i'r olygfan gyda llwybr byr yn ôl i'r maes parcio. Garw a serth iawn, llawer o gamfeydd. Gwisgwch sgidiau cerdded.

## Cyfanswm y rhannau: 7

Man cychwyn: Maes parcio Garn Fawr, cyfeirnod grid: SM8989438830

1. Dilynwch y llwybr gwair gyferbyn â mynedfa'r maes parcio, lan y rhiw rhwng y cloddiau.
2. Yn y fan lle mae'r llwybr yn gwahanu, daliwch i fynd lan y rhiw ar hyd y llwybr i'r dde. Cyn bo hir fe welwch bwynt triongli'r AO o'ch blaen.
3. Ewch drwy fwlch yn y wal gerrig ar y dde a sgramblo i fyny'r creigiau at y copa am olygfeydd trawiadol.
4. Ychydig islaw'r copa fe welwch wylfan o'r Rhyfel Byd Cyntaf gydag enwau wedi eu naddu yn y concrid. Ceir golygfeydd gwefreiddiol i bob cyfeiriad o'r fan hon. Mae gwartheg a merlod yn pori yn yr ardal, felly cadwch eich cŵn ar dennyn, os gwelwch yn dda.
5. Ewch i lawr y stepiau o'r wylfan i ymuno eto â'r llwybr ychydig ymhellach ymlaen. O'ch cwmpas mae cloddiau ac amddiffynfeydd y gaer o Oes yr Haearn. Ewch yn eich blaen i'r dde.
6. Mae'r llwybr yn cwympo'n serth tuag at hostel ieuenctid Pwll Deri. Trowch i'r chwith yn y fan lle mae'r llwybr yn rhannu, gan ddilyn y llwybr wrth iddo fynd o amgylch y bryn yn ôl tuag at y maes parcio.
7. Dilynwch y llwybr dros ddwy gamfa a rhai stepiau carreg. Peidiwch â mynd dros y drydedd gamfa; arhoswch uwchben y wal. Mae'r llwybr yn dringo am ychydig y tu ôl i fwthyn bach cyn dychwelyd i'r maes parcio.

Man gorffen: Maes parcio Garn Fawr, cyfeirnod grid: SM8989438830